

Bwletin 3/4/20

Annwyl Riant / Ofalwr,

Mae'n anodd gennyf gredu sut mae'r amser yn hedfan heibio a'r sefyllfa heriol bresennol yn esgor ar newidiadau lu i'n bywydau. Ymgais sydd gennym yma, felly, i'ch hysbysu o'r diweddara' gan ddiolch i bawb am yr ysbryd cymunedol, dealltwriaeth a chydweithrediad a amlygwyd ers i'r ysgol gau ei drysau i'r rhan fwyaf o'n disgyblion.



Glantaf yn Hwb ar gyfer Plant Gweithwyr Allweddol y Ddinas

Ers dydd Llun mae Glantaf wedi'i thro'i'n hwb i 8 o ysgolion y sir – Ysgol Glantaf, Ysgol Plasmawr, Ysgol Bro Edern (clwstwr cyfrwng Cymraeg), Ysgol Esgob Llandaf, Ysgol Teilo Sant, Ysgol Illtud Sant, Ysgol y Fair Ddihalog, Ysgol Corpus Christi (clwstwr ysgolion ffydd) – hwb sy'n cynnig gofal i blant gweithwyr allweddol ac i blant bregus. Carwn ddiolch o waelod calon i holl staff Ysgol Glantaf a'n cydweithwyr yn yr ysgolion a enwyd am eu cyfraniad i rediad yr hwb a'r ysgol dros yr wythnosau diwethaf ac am yr wythnosau i ddod. Er mai ar gyfer plant nifer gyfyngedig o weithwyr allweddol na all drefnu gwarchod eu hunain y mae'r hwb, ceir gofynion niferus sydd yn dibynnu ar ymroddiad a phroffesiynoldeb staff yr ysgolion hyn. Rwyf yn hynod falch ohonynt ac yn ddiolchgar am barodrwydd pawb i gefnogi'r hwb fel y gall y frwydr yn erbyn COVID-19 barhau hyd yn oed dros wyliau'r Pasg.

Carwn hefyd, ar ein rhan ni i gyd, ddiolch i'r gweithwyr allweddol eu hunain, a braint oedd cael bod yn rhan o'r ymgyrch "Clap for the NHS" ar Fawrth 26ain. Gwelwyd llu o enfysau mewn ffenestri ac mae'r ymgyrch honno wedi mynd o nerth i nerth - mae hyd yn oed aelodau o staff Glantaf wedi bod yn ceisio codi calon fel y gwelwch yma: <https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/52089891>

Dysgu drwy 'Classrooms'

Mae'r dysgwyr wedi bod wrthi ers pythefnos bellach yn cyflawni'r gwaith amrywiol sydd wedi'i osod gan eu hathrawon. Mae'n dda gweld cynifer o waith yn cael ei gyflwyno er mwyn i'r dysgwyr dderbyn adborth ynghylch ei safon a'r camau i wella. Mae'n anodd i'r athrawon wybod faint yn union o waith i'w osod drwy addysgu o hirbell fel hyn, a sylweddolwn fod pob unigolyn yn gweithio ar wahanol gyflymder, yn gweld elfennau gwahanol o dasgau yn hawdd neu'n anodd neu efallai bod amgylchiadau eraill yn golygu nad yw'n bosib cyflawni gwaith am gyfnod. Eu gweld yn gwneud eu gorau yw'r nod, a chyflawni'r hyn sy'n ymarferol bosib dan amgylchiadau cwbl unigryw.

Drwy osod gwaith yn rheolaidd gobeithiwn barhau i ddatblygu sgiliau'r dysgwyr dros gyfnod amhenodol mewn amgylchiadau sy'n newydd ac anghyffredin i bob un ohonom. Ceisiwch sicrhau bod y dysgwyr yn gwneud gwaith yn y pynciau sydd ar eu hamserlen arferol yn ystod y dydd, yn cael digon o seibiant a'u bod yn cyfyngu eu horiau gweithio i oriau ysgol arferol. Mewn sefyllfa anarferol rhaid bod yn hyblyg.

Mae'r un peth yn wir am fywydau'r athrawon. Mae nifer fawr yn mynd drwy'r un profiadau â chi drwy oruchwylio eu plant eu hunain yn ystod y dydd neu ofalu am aelod o'r teulu sy'n sâl. Gofynnwn felly i chi sylweddoli nad yw'n bosib i bob athro gadw at oriau gwaith arferol wrth osod a marcio gwaith. Bydd sawl athro/awes yn gorfod aros nes bod eu plant eu hunain yn eu gwelyau cyn

gallu dechrau ar waith ysgol y diwrnod hwnnw. Felly, gofynnwn yn garedig i chi sicrhau bod hysbysiadau (*notifications*) yn cael eu diffodd ar declynnau'r dysgwyr bob nos fel nad ydynt yn derbyn unrhyw waith / adborth / negeseuon tan y bore wedyn.

<https://support.google.com/edu/classroom/answer/6141557?co=GENIE.Platform%3DDesktop&hl=en>

<https://support.apple.com/en-gb/guide/iphone/iph7c3d96bab/ios>

<https://support.google.com/android/answer/9079661?hl=en-GB>

Os ydy'r dysgwr yn cael trafferth gyda chod ymuno â gwahanol ddosbarthiadau, mae'r wybodaeth ar Google Classrooms ar gyfer pob blwyddyn ysgol. Os oes problem arall yn codi yna dylid ebostio cymorthtg@glantaf.cymru

Gwyliau'r Pasg

Mae gwyliau'r Pasg arferol rhwng prynhawn Gwener 3ydd o Ebrill a bore Llun 20fed o Ebrill. Nid oes disgwyl i'r dysgwyr fod yn gweithio yn ystod y cyfnod hwnnw ac **ni fyddwn yn gosod gwaith** iddynt ei gwblhau. Efallai y bydd rhai adrannau'n awgrymu rhaglenni i'w gwyllo ar S4C, ClickView neu iPlayer neu'n gosod heriau ysgafn a hwyllog i'w cyflawni dros Twitter (@Ysgol_Glantaf @cymraegglantaf @BYG_Gtaf @Glantaf7 @AGglantafPE @GlantafPEmerch). Does dim rhaid i chi fod â chyfrif Twitter eich hun er mwyn gallu gweld y negeseuon.

Os yw amgylchiadau'n caniatáu, cyfnod i chi ei dreulio fel teulu yw gwyliau'r Pasg – i arddio, glanhau'r tŷ, dysgu coginio, chwarae gemau bwrdd, darllen llyfr, sgwrsio, rhannu wy Pasg neu unrhyw beth arall sy'n ymarferol bosib o fewn cyfyngiadau hunan-ynysu. Bydd yr athrawon fodd bynnag yn dal i gefnogi dysgwyr yr hwb yng Nglantaf yn ystod y gwyliau. Bydd darpariaeth Cyngor Caerdydd ar gyfer disgyblion sydd yn derbyn Prydau Ysgol am Ddim yn newid dros y gwyliau – anfonwyd neges yn esbonio'r newidiadau gan Mr Pugh ddoe.

Arholiadau BI 10,11,12 a 13

Deallwn fod hyn wedi bod yn destun pryder i holl ddisgyblion oed sefyll arholiadau allanol ledled y wlad. Erbyn hyn, rydym yn deall na fydd arholiadau yn cael eu cynnal o gwbl yn haf 2020. Mae'r penderfyniad hwn wedi codi llawer o gwestiynau ynghylch sut y bydd y dysgwyr yn derbyn eu graddau. Nid yw'r atebion i gyd gennym, ond dyma'r hyn a wyddwn. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar gael yma <https://qualificationswales.org/cymraeg/coronafeirws---covid-19/>

BI 11 a 13

Bydd graddau terfynol TGAU a Safon Uwch yn cael eu dyfarnu yn seiliedig ar ffactorau megis y radd gyffredinol y byddai pob dysgwr yn debygol o'i hennill ar ddiwedd cwrs astudio, eu perfformiad mewn ystod o asesiadau ystafell ddosbarth ac allanol, eu hymrwymiad cyffredinol i'w hastudiaethau a'u gallu yn y pwnc. Yn sgil hyn, **mae angen i ddysgwyr blynyddoedd 11 a 13 barhau i gyflwyno gwaith a osodir**. Byddwn yn parhau i gwblhau'r cyrsiau gyda'r dysgwyr dros yr wythnosau nesaf.

BI 12

Bydd holl ddysgwyr bl 12 yn derbyn gradd UG. Bydd y radd a ddyfernir yn seiliedig ar ystod o dystiolaeth wahanol, gan gynnwys graddau a aseswyd gan athrawon, ac **ni fyddant yn cyfrannu tuag at ganlyniadau Safon Uwch yn 2021**.

Yn ystod haf 2021, bydd gan ddysgwyr bl 12 ddau ddewis o ran eu dyfarniad Safon Uwch. Naill ai

- i) dewis sefyll yr unedau A2 yn unig, gan olygu bydd y radd Safon Uwch yn cael ei dyfarnu ar sail perfformiadau yn yr unedau hynny yn unig, neu
- ii) dewis sefyll unedau UG yn ogystal ag unedau A2.

Pa bynnag lwybr a ddewisir gan y dysgwyr, byddant yn derbyn y radd orau o'r naill lwybr neu'r llall.

Yn sgil hyn, **mae angen i ddysgwyr blwyddyn 12 barhau i gyflwyno gwaith.** Byddwn yn parhau i gwblhau'r cyrsiau gyda'r dysgwyr dros yr wythnosau nesaf er mwyn eu paratoi'n llawn gogyfer â pharhau i flwyddyn 13.

B/10

Ni fydd dysgwyr Blwyddyn 10 a oedd i fod i sefyll unedau a fyddai'n arwain at ganlyniadau TGAU yn haf 2021, yn derbyn canlyniad ar gyfer unedau.

Bydd gan y dysgwyr hynny ddau ddewis. Naill ai

- i) sefyll yr unedau y maent yn bwriadu eu dewis yn haf 2021 yn unig, gyda'r radd TGAU yn cael ei chyfrifo ar sail y perfformiad hwnnw yn unig, neu
- ii) sefyll yr unedau Blwyddyn 10 yn ystod haf 2021 yn ogystal ag unedau Blwyddyn 11.

Pa bynnag lwybr a ddewisir gan y dysgwyr, byddant yn derbyn y radd orau o'r naill lwybr neu'r llall.

Cymorth Lles ac Emosiynol

Mae'r cyfnod hwn yn her i nifer o'n plant a'n pobl ifanc, fel ag ydyw i ni fel oedolion. Mae'n gyfnod anghyffredin o fethu dilyn patrwm bywyd bob dydd cyfarwydd, methu mynd allan i chwarae, methu gweld ffrindiau, methu cymryd rhan mewn hoff weithgaredd hamdden. Hoffwn eich sicrhau chi a'r dysgwyr ein bod yma fel ysgol yn gefn i chi bob amser. Siaradwch gyda'ch plentyn gan roi'r cyfle iddynt fynegi eu pryderon a'u hofnau. Mae'r ffordd y maen nhw'n gweld y sefyllfa'n unigryw iddyn nhw ac mae'n bwysig gwrandao a thrafod a cheisio eu helpu i roi trefn ar y byd yn ystod y dyddiau dyrys. Mae'r cyfryngau'n darparu gwybodaeth gynhwysfawr a phwysig ond gall y wybodaeth hon beri dryswch a gofid i bobl oni cheir cyfle i'w phrosesu.

Mae gan bob dysgwr fynediad i ofal bugeiliol eu Pennaeth Cynnydd a Lles drwy ebost a Google Classrooms. Mae cyfrif Twitter **@LlesYsgolGlant1** hefyd yn cynnig gwybodaeth am faterion lles ac iechyd meddwl gyda dolenni i wefannau gan fudiadau, elusennau ac asiantaethau allanol.

Gwelwyd poblogrwydd gwefannau ac app-iau megis *Zoom* a *Houseparty* dros yr wythnosau diwethaf – platfformau digidol i bobl allu gweld ei gilydd a sgwrsio wyneb yn wyneb. Byddai annog y dysgwyr i gymdeithasu drwy gyfrwng y rhain, yn ogystal â WhatsApp neu'r ffôn yn fodd iddynt gadw cysylltiad â ffrindiau a chyfoedion wrth wneud gwaith neu ddim ond yn gymdeithasol ac i rannu profiadau. Does neb ar ei ben ei hun.

Cymreictod

Mae amryw o ddysgwyr Glantaf mewn sefyllfa freintiedig o fedru siarad ac ymarfer y Gymraeg yn ddyddiol ar eu haelwydydd yma yng Nghaerdydd, ond nid yw hyn yn wir am drwch poblogaeth yr ysgol. Unig gyswllt y disgyblion hyn â'r Gymraeg yw'r ysgol – eu cyfoedion a'u hathrawon. Felly, ni allwn bwysleisio digon pa mor allweddol yw manteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg dros yr wythnosau nesaf. Anogwch eich plant i wyllo S4C, gwrandao ar Radio Cymru, darllen erthyglau ar wefannau (www.bbc.co.uk/cymrufyw , www.golwg360.cymru , www.lysh.cymru i enwi rhai), darllen llyfrau ac – yn bwysicaf oll – i gyfathrebu yn y Gymraeg gyda'u ffrindiau.

Newyddion

I orffen, fel ysgol carem estyn ein llongyfarchiadau i'n dirprwy - Dr Rhodri Thomas - sydd wedi cael ei benodi'n bennaeth Ysgol Gyfun Penweddig yn Aberystwyth. Bydd yn dechrau ar ei swydd yno ym mis Medi. Bu ei gyfraniad i'r ysgol a'i llwyddiant yn sylweddol iawn a gwn y gwêl cymuned yr ysgol ei golli'n fawr. Rhyfedd meddwl na fyddaf i na Dr Thomas yng Nglantaf o fis Medi ymlaen ond bydd y Pennaeth newydd, Mr Matthew Evans, yn derbyn cefnogaeth Tîm Arwain sefydlog a medrus ac yn medru cynllunio ar gyfer penodiad Dirprwy Bennaeth newydd ar gyfer Ionawr 2021.

Dymuniadau gorau i bawb dros y Pasg. Er yn gyfnod o bryder a thristwch i lawer ceir, eto, enghreifftiau lu o bobl yn cefnogi ei gilydd gan ddarganfod ffyrdd creadigol a dyfeisgar o gyfathrebu, codi ysbryd, diddanu a dysgu. Yn y gweithgarwch a'r profiadau hyn gwelwn wir hanfod addysg a dinasyddiaeth.

Alun Davies a Staff Glantaf